# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28





www.gwynedd.llyw.cymru







“Mae Gwynedd yn sir unigryw. Yma mae gennym gymunedau Cymraeg naturiol a bywiog, ac mae ein hymrwymiad i fod ar flaen y gad wrth hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg ym mhob man ac ar bob achlysur yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth.”



# Rhagair Arweinydd y Cyngor

**Braint yw cael cyflwyno Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 sy’n gosod ein dyheadau a’n blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf. Nid dogfen ddiddim i’w rhoi i un ochr ac anghofio amdani yw hon, ond yn hytrach dyma lawlyfr sy’n dangos yn glir sut yr ydym am wireddu ein haddewid i’n trigolion dros y cyfnod nesaf.**

Heb os, dyma Gynllun uchelgeisiol a hynny mewn hinsawdd heriol tu hwnt. Rydym yn cael ein gwasgu o nifer o gyfeiriadau gyda rhai o sgil effeithiau Covid-19 a Brexit yn parhau, yn ogystal â’r cynnydd mewn costau byw ac ynni sy’n effeithio ar ein trigolion o ddydd i ddydd. Mae chwyddiant a phenderfyniadau annoeth gan Weinidogion yn San Steffan yn golygu bod Awdurdodau Lleol yn wynebu toriadau difrifol dros y blynyddoedd nesaf - hynny oll tra bod y galw am wasanaethau a chymorth gennym yn cynyddu.

Rydym yn brwydro yn erbyn y llif, ac ni fyddai hyn yn bosib heb ein gweithlu ymroddedig sy’n parhau i gynnig gwasanaeth i bobl Gwynedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae ein diolch yn fawr i bob un ohonynt.

Gwyddom hefyd mai ffôl fyddai ceisio cyflawni’r uchelgeisiau ar ein pennau ein hunain. I lwyddo mae angen i ni gydweithio a pharhau i fagu perthynas iach gydag ystod eang o bartneriaid - y trydydd sector, y sector breifat, gwasanaethau cyhoeddus eraill ac wrth gwrs ein cymunedau brwdfrydig.

Mae Gwynedd yn sir unigryw. Yma mae gennym gymunedau Cymraeg naturiol a bywiog, ac mae ein hymrwymiad i fod ar flaen y gad wrth hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg ym mhob man ac ar bob achlysur yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth.

O brysurdeb Dinas Bangor, i bendraw Llŷn a lawr i gefn gwlad De Meirionnydd, mae’n naturiol na fydd anghenion yr ardaloedd yr un fath ac mae’r Cynllun yn adeiladu ar sgyrsiau a gynhaliwyd â chymunedau yn ystod 2022. Tra bod llawer o benderfyniadau tu hwnt i’n rheolaeth ac i’w gwneud ymhell o Wynedd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, rydym wedi gwneud yn siŵr ein bod yn cyfeirio’r adnoddau prin sydd gennym i’r meysydd lle mae eu hangen fwyaf.

Yn fy marn i, ni fu erioed fwy o angen am lywodraeth leol gref. Mae ein cynllun corfforaethol newydd yn dangos sut y gallwn, fel Cyngor, weithio ar y cyd ar draws Gwynedd i ddarparu’r gwasanaethau sydd eu hangen fel bod pob un o’n trigolion yn byw bywyd da a diogel.



**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**
Arweinydd Cyngor Gwynedd

# Cyflwyniad

Mae’r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth a’n blaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf.

Yn dilyn ymgynghoriad eang gyda phobl Gwynedd fel rhan o gynllun Ardal Ni, ynghyd â nifer o drafodaethau ac adborth gan drigolion y sir a thu hwnt, lluniwyd cyfres o flaenoriaethau a phrosiectau a fydd yn galluogi i ni ddatblygu a gwella’r gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd ymhellach.

Wrth gwrs, dim ond rhan o weithgareddau’r Cyngor a welir yma, ac mae’r gwaith dyddiol o ddarparu gwasanaethau yn parhau ledled y sir.

Fel mae pawb yn gwybod bellach, mae hi’n gyfnod anodd yn ariannol, a does dim dwywaith y bydd hi’n her i’r Cyngor gyflawni pob un o’r prosiectau ar amser. Fodd bynnag, byddwn yn anelu’n uchel dros y pum mlynedd nesaf ac yn gweithio’n galed er mwyn cyrraedd pob uchelgais sydd wedi ei gosod ar gyfer y blaenoriaethau yn y cynllun.

Er mwyn gwneud hynny byddwn yn adolygu’r cynllun yn gyson ac yn gosod cerrig milltir ar gyfer pob prosiect er mwyn caniatáu i ni fesur ein cynnydd yn flynyddol.





Y Meysydd Blaenoriaeth o fewn y ddogfen hon yw ein Hamcanion Llesiant dan Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr Amcanion yn cyfrannu’n uniongyrchol at gyflawni’r saith nod llesiant cenedlaethol.

Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i’r pum ffordd o weithio o fewn y Ddeddf trwy ystyried yr hirdymor, atal, gweithio’n integredig, gweithio’n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio sydd yn canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.



**Mae’r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth:**

**GWYNEDD YFORY**

Rhoi’r cychwyn gorau posib mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc

**GWYNEDD LEWYRCHUS**

Cryfhau’r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GLYD**

Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**GWYNEDD OFALGAR**

Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**GWYNEDD GYMRAEG**

Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i’n trigolion ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned

**GWYNEDD WERDD**

Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i’r argyfwng newid hinsawdd

**GWYNEDD EFFEITHLON**

Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio’n effeithiol ac effeithlon

## Maes Blaenoriaeth

# Gwynedd Yfory

### Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc



**Ein huchelgais yw sicrhau fod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:**

- Eu trin yn gyfartal, eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.
- Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.
- Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.
- Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas hyd orau ein gallu.
- Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.
- Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol yn ddi-gost i gymaint o ddisgyblion â phosibl.
- Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol.
- Sicrhad fod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.

**Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn blaenoriaethu:**

**Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**

**Cinio ysgol am ddim**

**Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu**

**Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol**

**Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**

# Prosiectau Gwynedd Yfory

## Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod mewn addysg.

## Cinio ysgol am ddim

Bydd holl blant ysgolion cynradd y sir yn cael cinio ysgol am ddim, a byddwn yn ystyried os yw'n bosib ymestyn hyn i ddisgyblion uwchradd hefyd. O ganlyniad, bydd angen i ni uwchraddio ein ceginau a'r mannau bwyta er mwyn ymdopi gyda'r niferoedd uwch fydd yn cael cinio ysgol.

## Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, mae nifer o adeiladau ysgolion y sir yn dal i fod yn hen ac angen eu moderneiddio. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir ac yn benodol ardal Bangor a Chricieth, a byddwn yn cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd.

Byddwn hefyd yn gorffen ein hadolygiad o drefniadau addysg ôl-16 yn Arfon er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y trefniant gorau i ddysgwyr yr ardal.

## Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Gyda chostau pethau dyddiol fel gwisg ysgol, bwyd, cludiant, a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd, rydym am ailedrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, ond gan warchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr y mae ein plant yn eu cael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.

Byddwn hefyd yn ymdrin â materion llesiant yn cynnwys heriau emosiynol a seicolegol, ac yn cefnogi materion ehangach sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, er enghraifft magu hyder, cydraddoldeb, iechyd meddwl, problemau cludiant, a sicrhau profiad gwaith a chyfleon am swyddi.

## Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir

Mae cyfleoedd chwarae yn bwysig i ddatblygiad plentyn ac mae darparu meysydd chwarae o safon yn un ffordd y gallwn hybu'r cyfleoedd hyn. Byddwn felly yn ailedrych ar ein holl feysydd chwarae ac yn datblygu cynllun fydd yn ystyried sut y gallwn eu gwella yn ogystal â'u cynnal.

Byddwn hefyd yn edrych ar sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer Ieuenctid yn gweithio ar draws y sir a pha ddeilliannau y mae'n eu cyflawni i bobl ifanc.







## Maes Blaenoriaeth

# Gwynedd Lewyrchus

### Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.**

**Ein huchelgais yw i sicrhau:**

- Swyddi o safon.
- Cefnogaeth i fusnesau ffynnu.
- Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
- Cymunedau cryf a gwydn.
- Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm.









**Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn blaenoriaethu:**

| Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld cynaliadwy | Adfywio cymunedau a chanol trefi | Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith | Cadw'r Budd yn Lleol |
|---|---|---|---|

# Prosiectau Gwynedd Lewyrchus



## Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld cynaliadwy

**Byddwn yn cymryd cyfres o gamau er mwyn hyrwyddo ein diwylliant a chreu economi ymweld cynaliadwy:**

- Bydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a luniwyd ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2023. Bydd prif bartneriaid a rhanddeiliaid yn cydweithio i gyflawni'r hyn fydd yn y Cynllun gan sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.
- Byddwn yn sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a sicrhau adnoddau i gyflawni Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd.
- Byddwn yn Rheoli Cartrefi Modur sy'n ymweld â Gwynedd drwy beilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos.
- Bydd cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2023 yng Ngwynedd yn llwyfan i ddathlu ein diwylliant a'n hiaith, y celfyddydau a chwaraeon a sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol gadarnhaol yng nghymunedau Gwynedd.

## Adfywio cymunedau a chanol trefi

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio drwy ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch ar draws y sir ac yn sicrhau trefniadau traws-adrannol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod rhaglenni gwaith yn cydblethu a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau drwy barhau gyda'r gwaith ymgysylltu. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Canol Tref/ Dinas yn cael eu paratoi ar gyfer trefi unigol.

## Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith

Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod pobl Gwynedd yn elwa o brosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi'r rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol.

## Cadw'r Budd yn Lleol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nwyddau a gwasanaethau sylweddol gan gwmnïau allanol ac rydym yn awyddus i weld busnesau lleol yn cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

Bydd y prosiect yma yn sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i gefnogi busnesau lleol i ymgeisio am gyfleon, o fewn y rheolau perthnasol, ac ar yr un pryd yn sicrhau fod y Cyngor yn cael y gwerth gorau am yr arian sy'n cael ei wario.

## Maes Blaenoriaeth

# Gwynedd Glyd

### Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau



**Ein huchelgais yw i sicrhau fod gan pob person yng Ngwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella ansawdd eu bywydau.**

**Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy osod uchelgais i:**

- Sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned.
- Sicrhau fod tai newydd yng Ngwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Sicrhau fod tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir.



**Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn blaenoriaethu:**

**Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol**

**Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd**

**Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

**Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

# Prosiectau Gwynedd Glyd

## Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd

Mae costau ynni cynyddol yn golygu fod nifer o bobl y sir yn methu fforddio cadw eu tai yn gynnes, ac o ganlyniad mae perygl gwirioneddol i iechyd rhai o'n trigolion.

Byddwn yn cydweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo a hwyluso cynlluniau arbed ynni, grantiau, a budd-daliadau er mwyn sicrhau fod cymaint o bobl â phosib yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael ar adeg heriol iawn.

## Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

Byddwn yn cyflawni'r prosiectau sydd yn rhan o'n Cynllun Gweithredu Tai i gynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd allu sicrhau cartref addas. Ymysg y 33 prosiect unigol sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai, byddwn yn:

- Cydweithio gyda'r cymdeithasau tai lleol i adeiladu mwy o dai cymdeithasol trwy gyflymu'r rhaglen adeiladu gan anelu i godi 500 o dai newydd.
- Adeiladu ein tai ein hunain mewn safleoedd ar draws y sir. Byddant ar gael i drigolion lleol ar rent canolraddol neu i'w prynu trwy gynlluniau rhannu ecwiti. Anelir i godi 100 o dai o'r math yma.
- Prynu tai preifat er mwyn eu gosod ar rent fforddiadwy i bobl leol. Byddwn yn targedu tai gwag yn y lle cyntaf ond byddwn hefyd yn edrych ar dai sydd ar y farchnad agored. Anelir i brynu 100 o dai fforddiadwy dros oes y Cynllun.
- Darparu cymorth ar ffurf cynllun rhannu ecwiti fel y gall prynwyr tro cyntaf lleol gystadlu yn y farchnad dai.
- Darparu grantiau er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol. Bydd hyn yn dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd ac yn helpu pobl ifanc a phrynwyr tro cyntaf i fyw mewn tŷ. Anelir i ddod â 250 o dai gwag yn ôl i ddefnydd.
- Byddwn yn prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol.

## Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

Er mwyn sicrhau nad ydi pobl ddigartref yn gorfod treulio amser maith mewn llety dros dro, byddwn yn:

- Datblygu ein huned 'tai â chefnogaeth' ein hunain, sef llety lle darperir cefnogaeth i unigolion digartref gan staff arbenigol er mwyn caniatáu iddynt ddysgu a datblygu sgiliau bywyd er mwyn gwella eu gallu i gynnal tenantiaeth yn y dyfodol.
- Adnewyddu ac uwchraddio hen adeilad NatWest a GISDA yng Nghaernarfon i ddarparu pump fflat i ieuenctid digartref, ac ymestyn y caffi presennol i greu cyflogaeth i'r digartref, ynghyd â chreu cartref parhaol i GISDA a chreu gofod aml-asiantaethol i gefnogi ieuenctid digartref.
- Llunio pecyn cefnogaeth i annog landlordiaid preifat i gynnig llety parhaol i'r digartref, yn hytrach na'u gosod am gyfnodau tymor byr neu fel llety gwyliau. Anelir i gael 100 o unedau llety parhaol dros oes y Cynllun.
- Gweithio i atal digartrefedd trwy gynyddu ein capasiti i gynorthwyo a chefnogi unigolion bregus i barhau yn eu cartref.
- Ceisio symud pobl ddigartref i lety sefydlog cyn gynted â phosibl, yn hytrach na'u bod yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir.

## Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Mae'r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sy'n cael eu defnyddio fel ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr yn cael effaith andwyol ar allu pobl y sir i gael mynediad at gartrefi yn eu cymunedau.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno ymchwil manwl i'r Llywodraeth yn amlygu'r angen am weithredu ym meysydd cynllunio, trethiant a thrwyddedu er mwyn cael gwell rheolaeth o'r sefyllfa. Yn dilyn cyhoeddiadau diweddar gan y Llywodraeth, gan gynnwys sefydlu Peilot Dwyfor sy'n ymrwymo i gyflwyno camau i daclo problemau yn y maes, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r newidiadau deddfwriaethol mor fuan â phosib. Byddwn hefyd yn gosod premiwm treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag bob blwyddyn ar gyfradd briodol i ymateb i'r sefyllfa ar y pryd.



# Maes Blaenoriaeth

# Gwynedd Ofalgar

## Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau



**Mae gofalu am unigolion bregus yn un o'n prif gyfrifoldebau a'n huchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau drwy:**

- Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy'n agored i niwed.
- Cefnogi trigolion i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda'u cymunedau, ac i leihau tlodi a'i effeithiau.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion Gwynedd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
- Galluogi trigolion Gwynedd i fyw'n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl.
- Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Cefnogi ein cymunedau i sicrhau hygyrchedd ac i ddatblygu'n Wynedd Oed Gyfeillgar.

### Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn blaenoriaethu:

**Cefnogaeth Ataliol yn Lleol**

**Byw'n Annibynnol**

**Gofal Arbenigol o Ansawdd**

**Cefnogi Llesiant Pobl**

**Cynllun Awtistiaeth**

**Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan**

# Prosiectau Gwynedd Ofalgar

## Cefnogaeth Ataliol yn Lleol

Byddwn yn gweithio'n ataliol i gefnogi a diogelu unigolion yn lleol drwy hybu eu llesiant a'u hannog i gyfrannu o fewn eu cymunedau.
Ymysg ein cynlluniau mae:

- Cyfrannu at ddatblygiadau iechyd a gofal ym Mangor a Phenygroes.
- Ehangu ein rhwydwaith o hybiau cymunedol ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Ganolfan Dolfeurig, Dolgellau.
- Cyhoeddi rhaglen o weithgareddau a chyfleon i unigolion a gofalwyr ar draws y sir.
- Sicrhau fod Gwynedd yn sir oed gyfeillgar a bod trigolion o bob oed yn medru cael bywyd da yn eu cymuned leol.
- Rhannu gwybodaeth gyda'n cymunedau'n fwy effeithiol a gwella ein dulliau o ymgysylltu wrth ddatblygu'n gwasanaethau.

## Byw'n Annibynnol

Mae anghenion gofal unigolion y sir yn newid ac mae unigolion yn byw'n hirach. Mae angen i ni felly addasu ein gwasanaethau i alluogi i bobl fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau.
Ymysg ein cynlluniau mae:

- Ehangu ein darpariaeth gofal dydd ac ysbaid a darparu rhagor o opsiynau llety addas ar gyfer unigolion ag ystod eang o anghenion, megis Tai Gofal Ychwanegol.
- Cydweithio ar draws sectorau i sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cartref wedi'u teilwra ac ar gael yn brydlon pan fo'u hangen.
- Arwain ar Gynllun Gofalwyr ar draws y maes gofal Oedolion a Phlant i gefnogi gwaith amhrisiadwy gofalwyr di-dâl ar draws y sir.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio teleofal a thechnoleg i'w lawn botensial i hybu annibyniaeth unigolion.
- Hwyluso'r broses o dderbyn a darparu gofal drwy daliadau uniongyrchol drwy ystyried dulliau megis Waled Rithiol.

## Gofal Arbenigol o Ansawdd

Byddwn yn sicrhau bod gofal priodol ac arbenigol ar gael yn amserol; a hynny ar draws ein holl ddarpariaethau gofal.
Ymysg ein cynlluniau mae:

- Sicrhau darpariaeth nyrsio a dementia ddigonol ar draws y sir gan gynnwys datblygu gwlâu nyrsio ar safle Penrhos, Pwllheli.
- Sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i'n galluogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd.
- Datblygu ein gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau pwyslais digonol ar lesiant unigolion.
- Cryfhau ein gallu i gefnogi darparwyr gofal i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.
- Cyfrannu at brosiect Cynllunio'r Gweithlu i sicrhau sylw priodol i heriau a chyfleon penodol y maes gofal.
- Rhoi trefniadau newydd Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid ar waith i warchod hawliau pobl sy'n derbyn gofal yn y sir.

## Cefnogi Llesiant Pobl

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach.

Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w hanghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.

## Cynllun Awtistiaeth

Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau.

## Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

Rydym am wella profiadau'r plant sydd yng ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.



## Maes Blaenoriaeth

# Gwynedd Gymraeg

## Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**Fel arweinydd cenedlaethol byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Ein huchelgais yw:**

- Sicrhau fod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir a sicrhau fod cyfleoedd digonol i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.
- Sicrhau mynediad at wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon.
- Cydweithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r gallu i drigolion Gwynedd gael mynediad at holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau fod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.

### Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn blaenoriaethu:

**Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**

**Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd**



## Prosiectau Gwynedd Gymraeg

### Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

Mae'n hanfodol fod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf, a gaiff ei lledaenu ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg hefyd yn cael y cyfle i fagu hyder a gloywi eu Cymraeg drwy gefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi. Rydym hefyd am weld ehangu ein dulliau trochi iaith i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau lle mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a thu allan i'r ysgol yn gyfyngedig. Bydd y prosiect yma mewn cydweithrediad efo'r Gyfundrefn Drochi a'n hysgolion yn rhoi'r cyfle gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

### Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

Byddwn yn cynnal prosiectau penodol a fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.



## Maes Blaenoriaeth

# Gwynedd Werdd

## Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd



**Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, a'n nod yw i fod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.**

**Ein huchelgais yw i sicrhau:**

- Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd natur.
- Rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.
- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

### Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn blaenoriaethu:

**Gweithredu ar risgiau llifogydd**

**Gwastraff ac ailgylchu**

**Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur**

**Teithio llesol**

**Trafnidiaeth gyhoeddus**

**Cynllun Datblygu Lleol newydd**

**Cymunedau Glân a Thaclus**


# Prosiectau Gwynedd Werdd

## Gweithredu ar risgiau llifogydd

Mae risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol yn cynyddu gydag effaith newid hinsawdd sy'n golygu fod lefelau môr yn codi a stormydd mwy dwys yn digwydd yn fwy aml. Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sy'n eu gwasanaethu, ar yr arfordir.

Byddwn yn cydweithio gydag asiantaethau eraill, er mwyn blaenoriaethu ein harfordir ar sail risg, ac yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau lle bo hynny'n bosibl.

Mae hefyd risg o lifogydd mewndirol pan fo dŵr yn cronni ac afonydd yn gorlifo. Byddwn yn llunio cynlluniau dalgylch er mwyn helpu i osgoi/ymateb i fygythiadau presennol a chynyddol i'r dyfodol.



## Gwastraff ac ailgylchu

Byddwn yn paratoi strategaeth gwastraff ac ailgylchu newydd er mwyn ceisio cynyddu'r lefel ailgylchu yn y sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025. Bydd yn asesu pa mor effeithiol yw'n trefniadau casglu sbwriel presennol o ran hybu ailgylchu (o ddrws i ddrws ac yn ein canolfannau) ac yn cyflwyno trefniadau newydd lle bo angen.

## Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Mae 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' y Cyngor yn gosod uchelgais sy'n nodi y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad eang o brosiectau i leihau allyriadau carbon o'n defnydd o fflyd a theithio, defnydd o adeiladau, caffael, goleuo strydoedd a sawl maes arall. Byddwn yn cychwyn gyda buddsoddiad pellach o £3m mewn cynlluniau ynni adnewyddol a byddwn hefyd yn llunio mesurau penodol i fynd i'r afael â sgil effaith newid hinsawdd ar gymunedau Gwynedd.

## Teithio llesol

Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau fod cerdded a beicio yn dod y dewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, er mwyn gwella iechyd personol, ansawdd yr aer ac yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt.

Byddwn yn gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicio yn ein cymunedau.

## Trafnidiaeth gyhoeddus

Byddwn yn adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos.

Fel rhan o'r cynllun yma, byddwn hefyd yn cyflwyno bysiau trydan newydd.



## Cynllun Datblygu Lleol newydd

Byddwn yn llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Gwynedd fydd yn cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

## Cymunedau Glân a Thaclus

Mae gwaith ymgysylltu diweddar wedi amlygu fod cymunedau glân a thaclus yn hanfodol os am hybu balchder bro. Mewn ymateb i hyn byddwn yn hwyluso gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd adeiledig o fewn ac yng nghyffiniau trefi a phentrefi yng Ngwynedd, drwy ganolbwyntio ar lefydd agored cyhoeddus. Byddwn hefyd yn hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy gydweithio a magu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.

# Gwynedd Effeithlon



## Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon


**Er mwyn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau fod ein trefniadau gweithredu mewnol o'r safon uchaf bob amser.**

**Ein huchelgais yw:**

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

### Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn blaenoriaethu:

- Cynllunio'r Gweithlu
- Datblygu diwylliant y Cyngor
- Sicrhau tegwch i bawb
- Merched mewn arweinyddiaeth
- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Cynllun Digidol
- Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch
- Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol



## Cynllunio'r Gweithlu

Prif nod y prosiect ydi sicrhau fod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, a bod modd i ni sicrhau fod y cyflenwad hwnnw yn ei le am y tymor hir. Byddwn yn mynd i'r afael â phroblemau penodol recriwtio staff mewn meysydd allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg.

## Datblygu diwylliant y Cyngor

Mae diwylliant y Cyngor yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud ac mae hynny yn golygu cael gwared â rhwystrau sy'n atal staff rhag gallu cyflawni, gyda phenderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na thybiaethau.

Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Byddwn yn canolbwyntio ar wreiddio diwylliant o rymuso, galluogi a chyflawni ar draws yr holl weithlu sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol yn ogystal ag yn anuniongyrchol i drigolion Gwynedd.

## Sicrhau tegwch i bawb

Byddwn yn parhau gyda gwaith sydd eisoes ar y gweill er mwyn sicrhau fod y Cyngor, yn ei holl weithredoedd, yn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb. Byddwn yn adnabod gwaith sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn trin pawb mewn ffordd sy'n deg, beth bynnag eu nodweddion cydraddoldeb, eu cefndir a'u hanghenion.

## Merched mewn arweinyddiaeth

Mae nifer y merched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan. Byddwn felly yn parhau gyda rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd fel rhan o'r rhaglen i annog mwy o ferched i ymgeisio am uwch-swyddi o fewn y Cyngor.



# Prosiectau Gwynedd Effeithlon

## Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol

Mae'r Cyngor eisoes wedi torri ei gyllidebau er mwyn arbed dros £32m ers 2015/16, ond yn sgil y sefyllfa economaidd bresennol, nid yw'r arian y bydd y Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn ddigonol i ymdopi â chwyddiant a phwysau gwario newydd. Rydym yn wynebu bwlch ariannol o dros £12 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf.

Byddwn yn ymdrechu i wneud popeth y gallwn i leihau'r effaith ar y gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd gan dderbyn na fydd modd gosod cyllideb hafal heb gyfres faith o arbedion/toriadau a chynyddu'r dreth Gyngor yn uwch nag y byddem yn ei ddymuno.

## Cynllun Digidol


Mae disgwyliadau a thueddiadau pobl wedi newid yn sylweddol yn sgil y pandemig, ac mae hyn yn gyfle i weld a oes modd i ni wella profiad trigolion Gwynedd o wasanaethau rheng flaen a swyddfa gefn ymhellach drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

## Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch

Mae'r prosiect yma yn edrych ar reolaeth strategol iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor a'r ffordd mae hynny yn clymu i systemau llywodraethu a pherfformiad cyffredinol. Mae'n golygu cynnal adolygiad llawn o'r system reoli yn ei chyfanrwydd.

## Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

Byddwn yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo o'r newydd a fydd yn amlinellu cynllun y Cyngor o ran defnyddio'n hadeiladau i ddarparu gwasanaethau. Mabwysiadwyd y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo diwethaf yn 2016, ac mae newid sylweddol wedi bod mewn trefniadau gweithio a darpariaeth gwasanaeth ers hynny. Mae'n amserol i fod yn edrych ar reolaeth a rhesymoli'r ystad yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor ac anghenion y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer trigolion Gwynedd. Law yn llaw a hyn byddwn yn cadarnhau ein trefniadau gweithio hyblyg a gweithio hybrid.



# Cyfraniad at y 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWYNEDD YFORY - Rhoi'r  cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc** | | | | | |
| Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cinio ysgol am ddim | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng** | | | | | |
| Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld cynaliadwy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adfywio cymunedau a chanol trefi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cadw'r Budd yn Lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD GLYD - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau** | | | | | |
| Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD OFALGAR - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau** | | | | | |
| Cefnogaeth Ataliol yn Lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Byw'n Annibynnol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gofal Arbenigol o Ansawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi Llesiant Pobl | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun Awtistiaeth | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | | | | | |
| Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant | ✓ | ✓ | | | |
| Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd** | | | | | |
| Gweithredu ar risgiau llifogydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwastraff ac ailgylchu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Teithio Llesol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun Datblygu Lleol newydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymunedau Glân a Thaclus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon** | | | | | |
| Cynllunio'r Gweithlu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu diwylliant y Cyngor | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sicrhau tegwch i bawb | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Merched mewn arweinyddiaeth | | | | ✓ | |
| Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun Digidol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

**Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall**
ffoniwch 01766 771000
neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru

**Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am y Cynllun hwn**
cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes y Cyngor
drwy ffonio 01766 771000
neu ebostiwch cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

Cyhoeddwyd: Mawrth 2023

CYNGOR GWYNEDD

www.gwynedd.llyw.cymru






cym eng

Mae’r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg
This document is available in English and Welsh